**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Rebecca Evans AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

**31 Mawrth 2025**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO) a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (DNSPWO) (y cyfeirir atynt ar y cyd fel “y Gorchmynion Gweithdrefnol”) yn gosod gofyniad statudol i ymgynghori â chyrff allweddol ar y camau ymgynghori cyn ymgeisio ac ar ôl cyflwyno o brosesau cydsynio ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

1.2 Mae Gorchymyn y Weithdrefn Datblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (y cyfeirir ato fel "y Gorchymyn"), sy'n destun y memorandwm esboniadol hwn, yn diwygio'r Gorchmynion Gweithdrefnol hyn er mwyn diweddaru'r meini prawf a ddefnyddir wrth ymgynghori â 'Corff Adnoddau Naturiol Cymru' (Cyfoeth Naturiol Cymru) ar faterion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd.

1.3 Mae angen y diwygiadau hyn yn sgil y penderfyniad i gyflwyno map newydd, o'r enw y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, yn lle'r map llifogydd a ddefnyddir at ddibenion cynllunio (y Map Cyngor Datblygu). Mae'r Gorchmynion Gweithdrefnol sydd wedi'u gwneud yn sicrhau yr ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar unrhyw ddatblygiad a gynigir ym Mharth Llifogydd C o'r Map Cyngor Datblygu. Gyda'r Map Cyngor Datblygu yn dod i ben at ddibenion cynllunio unwaith y daw'r map newydd i rym, mae angen diwygio'r DMPWO a'r DNSPWO i alinio'r gofynion i ymgynghori ag CNC ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd gyda'r parthau llifogydd a ddisgrifir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

## 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn yn dod o'r pwerau a roddir i’r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59(1), (2)(b) a 3(a) a 74(1)(c) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Deddf 1990) (ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru), a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 61Z(8) a (9), 62R a 333(5B) o Ddeddf 1990. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

3.2 Mae'r pwerau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch ymgyngoriadau cyn ymgeisio i'w gweld yn adran 61Z(8) a (9) o Ddeddf 1990. Mae'r ddarpariaeth honno yn caniatáu iddynt ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â phersonau penodedig cyn iddynt

wneud cais cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau. Rhaid i'r mathau hyn o ddatblygiadau gael eu nodi mewn gorchymyn datblygu.

3.3 Gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch ymgynghori ar ôl ymgeisio gan ddefnyddio darpariaethau amrywiol o Ddeddf 1990. Mae adran 59(1), (2)(b) a (3)(a) yn darparu ar gyfer gwneud gorchmynion datblygu sy'n ymdrin â chaniatâd cynllunio a roddir gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Mae adran 74(1)(c) yn darparu y gall gorchymyn datblygu gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau penodedig ar gais cynllunio cyn iddynt benderfynu arno. Mae adran 62R o Ddeddf 1990 yn caniatáu i orchymyn datblygu wneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ymgynghori mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a gyflwynir iddynt.

3.4 Mae adran 333(5B) o Ddeddf 1990 yn darparu mai gweithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu.

*Ymgynghori o dan DMPWO*

3.5 Ar hyn o bryd, mae'r DMPWO yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr ymgynghori â chyrff a restrir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwnnw, cyn iddo wneud cais cynllunio (gweler erthyglau 2(1), 2B a 2D). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ymgynghori â'r cyrff hynny cyn iddo benderfynu ar gais cynllunio (gweler erthyglau 14, 15 a 15ZA).

3.6 Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ond yn berthnasol i geisiadau ar gyfer “datblygiadau mawr”, a ddiffinnir yn erthygl 2 o DMPWO fel datblygiad sy'n cynnwys un neu fwy o'r canlynol--
(a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau;
(b) datblygiad gwastraff;
(c) darparu tai annedd—
(i) pan fo nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu ragor;
(ii) pan fwriedir cyflawni'r datblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy ac nad yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c)(i);
(d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr y bwriedir ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu ragor;
(e) datblygiad a gyflawnir ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy.

3.7 Mae'n rhaid i gorff a restrir yn Atodlen 4 yr ymgynghorir ag ef ar y cam cyn ymgeisio neu'r cam ar ôl ymgeisio ddarparu ymateb o sylwedd (gweler erthyglau 15A a 15B).

3.8 Yn ogystal, os bydd ACLl yn ymgynghori â chorff a restrir yn Atodlen 4 mewn perthynas â mathau penodol eraill o geisiadau, mae'n rhaid i'r corff hwnnw ddarparu ymateb o sylwedd (gweler adran 100A o Ddeddf 1990 ac

erthyglau 15C a 15D). Mae'r ceisiadau y mae'r gofyniad hwn yn berthnasol iddynt fel a ganlyn:

- ceisiadau i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl (o fewn ystyr Adran 92 o Ddeddf 1990);
- ceisiadau am unrhyw gydsyniad, cytundeb neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol yn ôl unrhyw amod neu gyfyngiad y bydd unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir yn ddarostyngedig iddo; a
- ceisiadau am newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio (a wnaed o dan adran 96A o Ddeddf 1990).

3.9 Mae'n ofynnol i gyrff a restrir yn Atodlen 4 hefyd lunio adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth â rhai o'u swyddogaethau mewn perthynas ag ymgynghori o dan y Gorchymyn (gweler erthygl 15F).

*Ymgynghori o dan DNSPWO*

3.10 Yn yr un modd, mae'r Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) (DNSPWO) yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr ymgynghori â chorff a restrir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwnnw, cyn iddo wneud cais cynllunio (gweler erthyglau 2, 7 a 9). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r corff hwnnw cyn iddynt benderfynu ar gais cynllunio (gweler erthygl 22).

3.11 Mae'n rhaid i gorff a restrir yn Atodlen 5 yr ymgynghorir ag ef ar y cam cyn ymgeisio neu'r cam ar ôl ymgeisio ddarparu ymateb o sylwedd (gweler erthyglau 10 a 23).

3.12 Mae'n ofynnol hefyd i gyrff a restrir yn Atodlen 5 lunio adroddiadau blynyddol i Weinidogion Cymru ar eu cydymffurfiaeth â rhai o'u swyddogaethau mewn perthynas ag ymgynghori o dan y Gorchymyn (gweler erthygl 24).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae angen map llifogydd newydd i'w ddefnyddio at ddibenion cynllunio er mwyn dangos yn gywirach yr ardaloedd lle ceir perygl llifogydd sydd i'w hystyried wrth wneud penderfyniadau cynllunio, drwy seilio'r mapio ar waith modelu a data llifogydd cyfoes. Yn hyn o beth, mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn rhagdybio hefyd effeithiau newid hinsawdd gan ddangos perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol. Bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar berygl llifogydd (Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol) a daw i rym yr un pryd â'r polisi newydd ar 31 Mawrth 2025.

4.2 Nid yw'r diwygiadau hyn yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer CNC nac unrhyw gorff arall. Nid yw'r diwygiadau wedi newid natur yr ymatebion ymgynghori sydd eu hangen gan CNC chwaith.

4.3 Bydd y diwygiadau yn sicrhau bod y gofyniad presennol i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) roi cyngor ar geisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd (o afonydd a'r môr) barhau. Byddant yn sicrhau bod gan ddatblygwyr, ACLlau a Llywodraeth Cymru sail gyfreithiol o hyd ar gyfer ymgynghori ag CNC ar geisiadau cynllunio a cheisiadau DNS mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd. Yn benodol, ymgynghorir ag CNC ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd a ddangosir ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, fel y'u diffinnir yn y polisi cynllunio newydd ar berygl llifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15 ("TAN 15") fel a ganlyn:

| **Parthau'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Parth 3 (afonydd a'r môr) | Perygl o fwy nag 1:100 (afonydd) / 1:200 (y môr) *yn ogystal â* newid hinsawdd |
| Parth 2 (afonydd a'r môr) | Perygl o fwy nag 1:100/1:200 *yn ogystal â* newid hinsawdd ac 1:1000 *yn ogystal â* newid hinsawdd |
| Parthau Amddiffynnol TAN 15 | Ardaloedd ym Mharthau 2 a 3 (afonydd a'r môr) lle mae gan amddiffynfeydd safon lefel ddiogelwch o 1 mewn 100 o leiaf *yn ogystal â* newid hinsawdd |

*Newidiadau i ofynion ymgynghori mewn perthynas â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru*

4.4 Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan y Gorchymyn mewn perthynas â pherygl llifogydd a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (CNC) yn dod o dan drefniadau trosiannol. Daw'r rhain i rym ar 21 Ebrill 2025 a byddant yn gymwys i brosesau ymgynghori cyn ymgeisio a phrosesau ymgynghori ar ôl ymgeisio o'r dyddiad hwnnw. Byddant yn gymwys cyn gynted â phosibl ar ôl i'r polisi cynllunio newydd ar berygl llifogydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ddod i rym.

4.5 Gellir ystyried y penderfyniad i gyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r Map Cyngor Datblygu yn newid gweithdrefnol yn bennaf. Mae'r ddau fap yn dangos ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, ond maent yn defnyddio parthau â diffiniadau ac enwau gwahanol. Elfen bwysig o barhad rhwng y ddau fap yw eu bod yn cael eu diweddaru'n gyson. Roedd y Map Cyngor Datblygu yn cael ei ddiweddaru bob chwe mis a bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn dilyn yr un drefn. Mae defnyddwyr y system gynllunio yn gyfarwydd â defnyddio map sy'n newid o bryd i'w gilydd heb ddefnyddio trefniadau trosiannol. Nid ystyrir bod cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map Cyngor Datblygu yn newid mwy sylweddol nag unrhyw ddiweddariad i'r map Cyngor Datblygu. Ceir copi o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio y mae'r Gorchymyn yn cyfeirio ato yma: Cyfoeth Naturiol Cymru / Map llifogydd ar gyfer cynllunio / map cyngor datblygu.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid yw'r diwygiadau a wnaed gan y Gorchymyn wedi bod yn destun ymgynghoriad penodol nac uniongyrchol. Ymgynghorwyd ar y cynnig i gyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n gwneud y diwygiadau'n angenrheidiol, fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach ar y fersiwn newydd o TAN 15 rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020. Cafodd y map newydd ei groesawu a'i gydnabod fel cam pwysig yn y broses o ddiweddaru'r cyngor cyffredinol ar gynllunio a pherygl llifogydd. Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio er mwyn gallu ymgynghori'n anffurfiol arno rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021. Cadarnhaodd yr ymarfer hwn ymhellach fod cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r map Cyngor Datblygu yn ddilys.

5.2 Mae'r adroddiad ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol | LLYW.CYMRU

5.3 Ymgynghorwyd ar newidiadau pellach i'r TAN 15 rhwng Ionawr 2023 ac Ebrill 2023. Ni wnaeth yr ymgynghoriad hwn holi'n uniongyrchol am y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae'r adroddiad ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: Diwygiadau pellach i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol | LLYW.CYMRU

5.4 Gan fod y diwygiadau'n effeithio ar y gofynion i ymgynghori ag CNC ar ddatblygiadau arfaethedig mewn ardaloedd perygl llifogydd, mae Swyddogion Cynllunio Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i CNC am y newidiadau i'r Gorchmynion Gweithdrefnol.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ pan fo'r datblygiad a gynigir mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd

### Opsiynau

6.1 Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

- **Opsiwn 1** – Gwneud dim. Byddai hyn yn golygu parhau â'r trefniadau presennol, fel a ganlyn:
  - Mae'r Map Cyngor Datblygu yn pennu'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio;
  - Ymgynghorir ag CNC ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ sydd wedi'u lleoli ym mharthau perygl llifogydd y Map Cyngor Datblygu fel y'u diffinnir yn *Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016* (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel "y Gorchmynion Gweithdrefnol").

- **Opsiwn 2** – Cyflwyno map llifogydd newydd at ddibenion cynllunio (sef y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio) i gymryd lle'r Map Cyngor Datblygu presennol. O ganlyniad, cyflwyno Gorchymyn diwygio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ag CNC ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ sydd wedi'u lleoli yn y parthau perygl llifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Caiff cyfeiriadau at fathau o ddatblygiadau (e.e. “datblygiad dan fygythiad mawr”) eu tynnu o'r ddeddfwriaeth er mwyn cadarnhau gofynion i ymgynghori ag CNC sy'n adlewyrchu arferion presennol. Mae'n arferol bellach i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) a datblygwyr ymgynghori ag CNC ar gynigion datblygu sydd y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth bresennol os cynigir lleoli datblygiad mewn ardal lle ceir perygl llifogydd.

### Cyfiawnhad dros 2 opsiwn

6.2 Ni chynigir trydydd opsiwn gan nad ystyrir bod ffordd resymol arall o gyflawni bwriad y polisi o sicrhau y gall CNC barhau i gymryd rhan mewn ymgyngoriadau ar ddatblygiadau lle mae'r perygl o lifogydd yn debygol o fod yn ystyriaeth gynllunio sylweddol.

### Costau a Manteision

**Opsiwn 1 – Gwneud dim (h.y. parhau â'r trefniadau presennol lle mae'r Map Cyngor Datblygu sy'n pennu'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio ac ymgynghori ag CNC ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ sydd wedi'u lleoli**

**ym mharthau perygl llifogydd y Map Cyngor Datblygu fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth bresennol).**

**Disgrifiad**

6.3 Byddai'r Map Cyngor Datblygu presennol yn parhau mewn grym er mwyn pennu'r ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer diffinio ymgynghori ag CNC (a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth fel ‘Corff Adnoddau Naturiol Cymru’) ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd o dan yr opsiwn hwn. Byddai hyn yn golygu y byddai CNC yn parhau i gymryd rhan mewn ymgyngoriadau ar unrhyw gynigion o'r fath, gan gynnwys ‘Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol’, sy'n perthyn i Barth Llifogydd C2 y Map Cyngor Datblygu, neu geisiadau y gellir eu categoreiddio yn ‘ddatblygiadau gwasanaethau brys’ neu ‘ddatblygiadau dan fygythiad mawr’ sy'n perthyn i Barth Llifogydd C1 y Map Cyngor Datblygu. Byddai'n parhau i roi cyfle i CNC wneud sylwadau ar y cynigion hynny lle caiff yr angen i ystyried perygl llifogydd ei sbarduno gan ddefnyddio'r Map Cyngor Datblygu presennol.

**Costau**

6.4 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac, fel y cyfryw, nid oes costau na manteision ychwanegol i'r opsiwn hwn. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa bresennol.

6.5 Noder bod amcangyfrif o'r costau i randdeiliaid y flwyddyn wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf.

<u>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</u>

6.6 Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud sylwadau ar gynigion mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir gan y Map Cyngor Datblygu. Caiff y ddyletswydd statudol ar CNC i ymateb i ymgyngoriadau ar gynigion i'w lleoli yn yr ardaloedd hynny lle ceir perygl llifogydd a ddangosir yn y Map Cyngor Datblygu, ei nodi o dan y Gorchmynion Gweithdrefnol.

| Blwyddyn | Nifer yr ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio y mae CNC wedi rhoi ymatebion sylweddol iddynt, sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. |
|---|---|
| 2023/2024 | 1,661 |
| 2022/2023 | 1,601 |
| 2021/2022 | 1,479 |
| 2020/2021 | 1,625 |
| 2019/2020 | 1,549 |
| 2018/2019 | 1,798 |

| | |
|---|---|
| | *(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt y mathau o ddatblygu y mae angen ymgynghori ag CNC arnynt o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ond sy'n adlewyrchu arfer cyfredol – gweler Tabl 6)* |

Tabl 1: Nifer yr ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio y mae CNC wedi rhoi ymatebion sylweddol iddynt, sy'n dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

6.7 Mae data gan CNC[1] yn dangos nifer yr ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio y mae wedi rhoi ymatebion sylweddol iddynt sydd mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn y Map Cyngor Datblygu (gweler Tabl 1 uchod). Ar gyfartaledd, ar gyfer y cyfnod 2018/2019 i 2023/2024, cafwyd 1,619[2] o ymatebion sylweddol y flwyddyn gan CNC i ymgyngoriadau cynllunio ar gyfer cynigion datblygu ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. Nid ystyrir bod angen dangos costau manwl yr opsiwn hwn i CNC gan na fyddai unrhyw newid i'r adnoddau sydd eu hangen ar CNC i ymateb i ymgyngoriadau cynllunio ar gynigion datblygu a leolir mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd o dan y naill opsiwn na'r llall (gweler hefyd y costau i CNC o dan Opsiwn 2 isod).

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau)</u>

6.8 Byddai ACLlau yn parhau i ymgynghori ag CNC ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn unol â'r gofynion deddfwriaethol presennol lle caiff ymgyngoriadau eu sbarduno gan Barthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

6.9 Amcangyfrifir bod ymgynghori ag CNC yn costio tua £43 fesul cais i ACLlau ar gyfartaledd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y bydd hi'n cymryd 30 munud ar gyfartaledd i swyddog gweinyddol (cyflog gros blynyddol o £25,451[3]) hysbysu CNC, a 60 munud i uwch swyddog cynllunio (cyflog gros blynyddol o £41,518[4]) gysylltu ag CNC ac ystyried ei ymateb wrth ddod i benderfyniad, ynghyd â chwyddiant i ystyried codiadau cyflog o 2021[5]. Deellir o ohebiaeth ag ACLlau mai yn electronig y caiff ymgyngoriadau ag ymgyngoreion statudol neu gyrff cyhoeddus eraill eu cynnal yn bennaf er mwyn bod mor effeithlon â phosibl; felly, ni chynhwyswyd unrhyw gostau postio/argraffu.

| Blwyddyn | Nifer yr ymatebion sylweddol a ddarperir gan CNC i ACLlau lle ceir | Amcangyfrif o'r costau blynyddol i ACLlau |
|---|---|---|

1 Darparwyd data ar ymatebion sylweddol CNC i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio gan CNC i Lywodraeth Cymru ar 28 Chwefror 2025.

2 Swm y data ar gyfer 2018/2019 i 2023/2024 wedi'i rannu â 6.

3 Cyflog gros cyfartalog yng Nghymru ar gyfer rôl 'Cynorthwyydd Technegol/Swyddog Cymorth Cynllunio' o fewn ACLl fel y nodwyd yn y data ategol i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru' (Arup, Ionawr 2021).

4 Cyflog gros cyfartalog yng Nghymru ar gyfer rôl 'Uwch Swyddog Cynllunio' o fewn ACLl fel y nodwyd yn y data ategol i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cost Darparu Gwasanaeth Rheoli Datblygu yng Nghymru' (Arup, Ionawr 2021).

5 Ffigur chwyddiant o 21.83% sef cynnydd o £35 i'r gost (a'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf) i gyfrif am godiad cyflog gros yr awr yn y sector cyhoeddus o 2021: Earnings and hours worked, UK region by public and private sector: ASHE Table 25 - Office for National Statistics

| | | |
|---|---|---|
| | datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. | |
| 2023/2024 | 1,617<br>*(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt y mathau o ddatblygu y mae angen ymgynghori ag CNC arnynt o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ond sy'n adlewyrchu'r arfer presennol – gweler Tabl 6).* | £69,500 (£2,800 fesul ACLl) |

Tabl 2: Nifer yr ymatebion sylweddol a gyflwynwyd gan CNC i ACLlau ac amcangyfrif o'r costau blynyddol i ACLlau o ymgynghori ar gynigion ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. [6]

*Noder: Mae CNC wedi darparu data ar nifer yr ymatebion sylweddol a ddarparwyd i ACLlau ynghylch ceisiadau sy'n cynnig datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu am y blynyddoedd cynt, sef 1,529 yn 2022/2023; 1,425 yn 2021/2022; 1,588 yn 2020/2021; 1,583 yn 2019/2020; a 1,782 yn 2018/2019. Mae'r niferoedd hyn yn dangos y rhoddir yn fras rhyw 1,600 o ymatebion sylweddol y flwyddyn i ACLlau, ar sail niferoedd blynyddoedd cynt.*

*Gall ymateb sylweddol fod yn unrhyw beth o ateb un frawddeg i ddadansoddiad manwl. Felly, ystyrir bod nifer y ceisiadau lle mae CNC yn rhoi ymatebion sylweddol i ymatebydd iddynt yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn fras â nifer y ceisiadau yr ymgynghorodd yr ymatebydd arnynt i ddechrau (ACLlau yn yr achos hwn).*

6.10 Nodir nifer yr achosion lle mae ACLl wedi ymgynghori ag CNC ar geisiadau a leolir ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu yn Nhabl 2 uchod. Ar y sail hon, o'i luosi â chyfradd fesul awr gros y staff perthnasol[7], ynghyd â chwyddiant yn sgil codiadau cyflog o 2021 [8], amcangyfrifir mai cyfanswm y gost flynyddol i ACLl yw tua £69,500 (£2,800 fesul ACLl).

6.11 Gweler Paragraffau 6.15 i 6.17 sy'n disgrifio'r newidiadau i benderfyniadau gan ACLlau ynghylch prosiectau seilwaith lle bydd proses ar gyfer cydsynio seilwaith newydd yn cymryd lle'r drefn DNS bresennol maes o law. Disgwylir newid bach iawn i gostau'r ACLlau o dan yr opsiwn

6 Mae gan y data a ddarparwyd gan CNC lefel hyder canolrifol gan nad oedd modd pennu'n union y rhaniadau rhwng rhanddeiliaid lle cafwyd ymatebion sylweddol ganddo i geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, ond gellir rhannu'r niferoedd rhwng rhanddeiliaid lle bo data'r parthau llifogydd wedi'u cadarnhau o ran achos y maent wedi'i drin. At ddibenion yr RIA hwn, ystyrir bod y ffigurau hyn felly'n cynrychioli'r data gorau sydd ar gael i ddangos nifer yr ymatebion i randdeiliaid penodol lle mae CNC wedi darparu ymatebion sylweddol i geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

7 Swyddog Gweinyddol LPA:- £25,451 costau blynyddol gros / 230 diwrnod gwaith = £111 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £15 (cost fesul awr).

8 Ffigur chwyddiant o 21.83% sef cynnydd o £35 i'r gost (a'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf) i gyfrif am godiad cyflog gros yr awr yn y sector cyhoeddus o 2021. Ffynhonnell: Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth y DU yn ôl y sector cyhoeddus a'r sector preifat: ASHE Tabl 25 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

hwn am ymgynghori ag CNC ar geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu o ganlyniad i broses gydsynio newydd yn lle DNS.

Llywodraeth Cymru

6.12 Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) sy'n prosesu ceisiadau ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar ran Gweinidogion Cymru. O dan yr opsiwn hwn, byddai PEDW yn parhau i ymgynghori ag CNC ar geisiadau DNS, ac o bosibl rhai achosion efallai y bydd gofyn iddynt benderfynu arnynt o dan y broses galw i mewn, mewn ardaloedd perygl llifogydd yn unol â'r gofynion deddfwriaethol presennol lle mae gofyn cynnal ymgynghoriad am eu bod ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

6.13 Amcangyfrifir bod ymgynghori ag CNC yn costio cyfanswm o tua £70.00 fesul cais i PEDW ar gyfartaledd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon y bydd hi'n cymryd 30 munud i swyddog gweinyddol o PEDW (cyflog gros blynyddol o £37,993) hysbysu CNC a chydweithio ag ef a 60 munud i arolygydd o PEDW (cyflog gros blynyddol o £90,365) ddehongli a chrynhoi'r ymateb. Mae pob ymgynghoriad gan PEDW ag ymgyngoreion statudol neu gyrff cyhoeddus eraill yn cael ei gynnal yn electronig; felly, ni chynhwyswyd unrhyw gostau postio/argraffu.

| Blwyddyn | Nifer yr ymatebion sylweddol a ddarparwyd gan CNC i PEDW lle ceir datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. |
|---|---|
| 2023/2024 | 14<br>*(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt y mathau o ddatblygu y mae angen ymgynghori ag CNC arnynt o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ond sy'n adlewyrchu'r arfer presennol – gweler Tabl 6).* |

Tabl 3: Nifer yr ymatebion sylweddol a ddarparwyd gan CNC i PEDW lle mae datblygiad yn dod o fewn Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.[9]

*Noder: Mae CNC wedi darparu data ar nifer yr ymatebion sylweddol a ddarparwyd i PEDW ar gyfer ceisiadau sy'n cynnig datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu am y blynyddoedd blaenorol, sef 16 ar gyfer 2022/2023; a 0 ar gyfer 2021/2022; heb unrhyw ffigurau ar gyfer blynyddoedd cynt. O ran nifer yr ymatebion sylweddol a roddwyd i PEDW mewn blynyddoedd cynt, ystyrir ei bod yn rhesymol tybio ar gyfartaledd bod CNC yn rhoi rhyw 15 o ymatebion i PEDW mewn blwyddyn (a gellid ystyried bod hyn ym mhen ucha'r raddfa, o ystyried na chafwyd unrhyw ymatebion yn 2021/2022 ac na chafodd honno ei chynnwys wrth gyfrifo cyfartaledd y ddwy flynedd cynt).*

9 Mae gan y data a ddarparwyd gan CNC lefel hyder canolrifol gan nad oedd modd pennu'n union y rhaniadau rhwng rhanddeiliaid lle cafwyd ymatebion sylweddol ganddo i geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, ond gellir rhannu'r niferoedd rhwng rhanddeiliaid lle bo data'r parthau llifogydd wedi'u cadarnhau o ran achos y maent wedi'i drin. At ddibenion yr RIA hwn, ystyrir bod y ffigurau hyn felly'n cynrychioli'r data gorau sydd ar gael i ddangos nifer yr ymatebion i randdeiliaid penodol lle mae CNC wedi darparu ymatebion sylweddol i geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

*Gall ymateb sylweddol fod yn unrhyw beth o ateb un frawddeg i ddadansoddiad manwl. Felly, ystyrir bod nifer y ceisiadau lle mae CNC yn rhoi ymatebion sylweddol i ymatebydd iddynt yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn fras â nifer y ceisiadau yr ymgynghorodd yr ymatebydd arnynt i ddechrau (PEDW yn yr achos hwn).*

6.14 Yn 2023/2024, gwnaeth CNC roi 14 o ymatebion sylweddol i PEDW ar gyfer cynigion ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu; fodd bynnag, o ystyried data ceisiadau hanesyddol, ystyrir ei bod yn rhesymol amcangyfrif y byddai CNC ar gyfartaledd yn rhoi 15 ymateb i PEDW mewn blwyddyn (gweler Tabl 3 uchod). Felly, tua £1,100 y flwyddyn fyddai costau gweinyddol PEDW ymgynghori ag CNC ar geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, yn seiliedig ar ddelio ag amcangyfrif o 15 cais DNS y flwyddyn a chyfraddau fesul awr gros y staff perthnasol[10].

6.15 Bydd Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn dod â threfn gydsynio'r DNS i ben a rhoi proses gydsynio newydd yn ei lle i Weinidogion Cymru benderfynu ar brosiectau seilwaith arwyddocaol.

6.16 Ni ddisgwylir i'r broses gydsynio newydd newid y broses gyffredinol ar gyfer ymgynghori. PEDW fydd yn gweinyddu'r broses gydsynio newydd o hyd ac mae disgwyl iddynt ymgynghori â CNC mewn ffordd debyg ar geisiadau yn y parthau llifogydd, gyda gweinyddwyr yn ymateb ac arolygydd yn ystyried y sylwadau fydd wedi dod i law, fel o'r blaen. Felly, bydd y costau i Lywodraeth Cymru am ymgynghori ag CNC ar geisiadau seilwaith ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu fel y rhai ar gyfer DNS.

6.17 Mae disgwyl i'r broses gydsynio newydd arwain at ychydig llai o geisiadau seilwaith i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt bob blwyddyn, hynny am mai ACLlau yn hytrach na Gweinidogion Cymru fydd yn delio â cheisiadau llai. Mae Asesiad Effaith Reoleiddiol Deddf Seilwaith (Cymru)[11] yn dangos y bydd ACLlau yn delio â  0.44 o geisiadau ychwanegol y flwyddyn o dan y broses gydsynio newydd (neu 4 cais dros gyfnod o 9 mlynedd). Efallai na fydd y 0.44 cais seilwaith hwnnw y bydd ACLlau yn hytrach na Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt o reidrwydd yn ymdrin â chynigion yn y parthau llifogydd, hynny am y bydd llawer o geisiadau seilwaith, oherwydd eu natur, yn ddatblygiadau ar dir uwch y tu allan i ardaloedd lle ceir perygl llifogydd; er enghraifft, rhai mathau o brosiectau ynni adnewyddadwy. Felly o dan yr opsiwn hwn, ystyrir y byddai'r newid hwn i bwy sy'n penderfynu ar brosiect seilwaith o dan y broses gydsynio seilwaith newydd ond yn cael effaith fach iawn ar gostau

10 Swyddog Gweinyddol PEDW:- £37,993.29 costau blynyddol gros / 230 diwrnod gwaith = £165 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £23 (cost fesul awr). Arolygydd PEDW:- £90,364.86 costau blynyddol gros / 230 diwrnod gwaith = £393 (cost fesul diwrnod) / 7.24 (awr fesul diwrnod) = £54 (cost fesul awr). Ffigurau a ddarparwyd gan PEDW ar 19 Chwefror 2025.

11 Mae'r Memorandwm Esboniadol (sy'n ymgorffori Asesiad Effaith Rheoleiddiol) i Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar gael yma: Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

ACLlau neu Lywodraeth Cymru am ymgynghori ag CNC ar geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

Y Diwydiant Datblygu

6.18 Mae ymgynghori ag CNC ar y cam cyn ymgeisio ar gyfer cynigion datblygu mawr mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn ofyn statudol ar ddatblygwyr o dan y gofynion deddfwriaethol presennol lle caiff ymgyngoriadau eu sbarduno gan Barthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

6.19 Nid oes cost safonol i ddatblygwyr am gynnal ymgynghoriad, gan fod costau ymarferion ymgysylltu rhwng CNC a datblygwyr yn amrywio gan ddibynnu ar gymhlethdod y cynnig a nifer y staff sy'n gweithio ar yr ymarfer. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen diwygio rhai cynigion datblygu i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â phryderon a godir gan CNC.

6.20 Fel arfer, bydd datblygwyr yn penodi ymgynghorwyr cynllunio i gynnal unrhyw ymgynghoriad cyn ymgeisio. Yn seiliedig ar gyflog cyfartalog[12] ymgynghorydd cynllunio (£29 yr awr) ac amcangyfrif y bydd hi'n cymryd tua 60 munud fesul cais ar gyfartaledd i hysbysu CNC, cydweithio ag ef, ystyried ei ymateb i'r cais a'i gofnodi mewn adroddiad i ategu'r cais, amcangyfrifir bod ymgynghori ag CNC ar gynigion datblygu yn costio tua £29 fesul cais i'r datblygwr.

| Blwyddyn | Nifer yr ymatebion sylweddol a roddir gan CNC i ddatblygwyr lle ceir datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. |
|---|---|
| 2023/2024 | 170<br>*(Mae'r ffigurau'n cynnwys ceisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu nad ydynt y mathau o ddatblygu y mae angen ymgynghori ag CNC arnynt o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ond sy'n adlewyrchu arfer cyfredol – gweler Tabl 6)* |

Tabl 4: Nifer yr ymatebion sylweddol a roddir gan CNC i ddatblygwyr lle ceir y datblygiad ym Mharth Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu. [13]

*Noder: Mae CNC wedi darparu data ar nifer yr ymatebion sylweddol a roddodd i ddatblygwyr ynghylch ceisiadau sy'n cynnig datblygiad ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu am y blynyddoedd cynt, sef 170 yn 2022/2023; 139 yn 2021/2022; 192 yn 2020/2021; 249 yn 2019/2020; a 347 yn 2018/2019.*

*Gall ymateb sylweddol fod yn unrhyw beth o ateb un frawddeg i ddadansoddiad manwl. Felly, ystyrir bod nifer y ceisiadau lle mae CNC yn rhoi ymatebion*

12 Yn seiliedig ar ffigwr canolrif cyflog yr awr gros o £28.87 (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf) ar gyfer 'Gweithwyr Proffesiynol Rheoli Prosiectau Cymru, Busnes ac Ariannol' dyddiedig 2024, ffynhonnell data ASHE, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

13 Mae gan y data a ddarparwyd gan CNC lefel hyder canolrifol gan nad oedd modd pennu'n union y rhaniadau rhwng rhanddeiliaid lle cafwyd ymatebion sylweddol ganddo i geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, ond gellir rhannu'r niferoedd rhwng rhanddeiliaid lle bo data'r parthau llifogydd wedi'u cadarnhau o ran achos y maent wedi'i drin. At ddibenion yr RIA hwn, ystyrir bod y ffigurau hyn felly'n cynrychioli'r data gorau sydd ar gael i ddangos nifer yr ymatebion i randdeiliaid penodol lle mae CNC wedi darparu ymatebion sylweddol i geisiadau ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu.

*sylweddol i ymatebydd iddynt yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn fras â nifer y ceisiadau yr ymgynghorodd yr ymatebydd arnynt i ddechrau (y diwydiant datblygu yn yr achos hwn).*

6.21 Yn 2023/2024, rhoddodd CNC 170 o ymatebion sylweddol i ddatblygwyr ynghylch cynigion ym Mharthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu; fodd bynnag, ar gyfer blynyddoedd 2018/2019 i 2022/2023, ymgynghorwyd ag CNC ar nifer uwch o gynigion ceisiadau cynllunio gan ddatblygwyr y flwyddyn (gweler Tabl 4 uchod). Felly, ystyrir ei bod yn fwy priodol cymryd cyfartaledd o'r ymatebion i ddatblygwyr a roddwyd gan CNC dros y cyfnod 2018/2019 i 2022/2023 at ddibenion yr RIA hwn. Canlyniad hynny yw bod CNC ar gyfartaledd yn rhoi (170 + 170 + 139 + 192 + 249 + 347 / 6) 211 o ymatebion sylweddol i ddatblygwyr y flwyddyn. Byddai hyn yn arwain at gyfanswm cost i'r diwydiant datblygu o oddeutu (211 wedi'i luosi â 29) £6,100 y flwyddyn.

**Manteision**

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

6.22 Byddai CNC yn parhau i ymgynghori ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir yn y Map Cyngor Datblygu. O safbwynt mapio, byddai CNC yn parhau i ddiweddaru'r Map Cyngor Datblygu bob chwe mis. Mae'r diweddariadau hyn yn cynnwys adolygiad o ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, sy'n golygu bod CNC yn ymgynghori ar y mathau priodol o gynigion ac yn gwneud sylwadau os gallai fod perygl llifogydd.

6.23 Nid ystyrir y byddai'r naill opsiwn na'r llall yn arwain at fuddiannau amlwg i CNC o ran adnoddau neu weithdrefnau. Diben y newidiadau arfaethedig yw tacluso'r mapiau a'r derminoleg bresennol er mwyn adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd, fel yr eglurir isod.

6.24 Ar hyn o bryd, nid yw terminoleg y Map Cyngor Datblygu nac enwau'r parthau llifogydd yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod iaith glir a chyfredol yn cael ei defnyddio wrth ystyried ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn y system gynllunio. Hefyd, nid yw'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a gyflwynir yn y fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15). Er enghraifft, mae'r TAN newydd yn diweddaru'r iaith a ddefnyddir i ddiffinio ardaloedd a gaiff eu hamddiffyn rhag perygl llifogydd drwy bennu diffiniad cliriach sy'n cyfeirio atynt, yn syml, fel ‘parthau amddiffynnol’ Nid yw geiriad y mapiau perygl llifogydd na'r gofynion ymgynghori cysylltiedig yn adlewyrchu'r polisi newydd hwn, a gallai hyn ei gwneud hi'n anos i CNC lunio ymatebion i gynigion datblygu sy'n cyd-fynd yn glir â geiriad y mapiau a'r polisi.

6.25 O safbwynt y derminoleg a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth gyfredol, mae'n diffinio ‘mathau’ penodol o ddatblygiadau y dylid ymgynghori ag CNC yn eu cylch yn achos datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, gan gyfeirio at ‘ddatblygiadau dan fygythiad mawr’ yn benodol. Nid yw'r

safbwynt hwn yn adlewyrchu'r safbwynt polisi presennol nac arferion safonol sy'n golygu bod CNC yn cael ei hysbysu, fan lleiaf, am bob math o gynigion datblygu yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd.

6.26 Felly, ni fyddai Opsiwn 1 yn adlewyrchu'r newidiadau ehangach hyn i'r polisi cynllunio o safbwynt mapio perygl llifogydd a gofynion ymgynghori, fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth. Yn y pen draw, drwy beidio â diweddaru terminoleg y mapiau perygl llifogydd a'r derminoleg ddeddfwriaethol, ni fyddai cyfres gynhwysfawr a thryloyw o fesurau cyfredol ar gael i bob rhanddeiliad ar sut y dylai'r perygl o lifogydd gael ei ystyried wrth benderfynu ar gynigion datblygu drwy gydol y system gynllunio.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant Datblygu</u>

6.27 Byddai'n ofynnol o hyd i ACLlau, PEDW a'r diwydiant datblygu ymgynghori ag CNC ar gynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir yn y Map Cyngor Datblygu.

6.28 Nid ystyrir y byddai'r naill opsiwn na'r llall yn arwain at fuddiannau amlwg i ACLlau na PEDW o ran adnoddau neu weithdrefnau. Mae'r newidiadau arfaethedig i ofynion ymgynghori yn deillio o bolisi cynllunio cenedlaethol wedi'i ddiweddaru ar berygl llifogydd, fel yr eglurwyd eisoes. Felly, byddai methiant i gysoni'r llwyfan mapio â'r polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar berygl llifogydd o dan yr opsiwn hwn yn creu amwysedd i randdeiliaid o ran sut y mae eu cynigion yn cyd-fynd â'r mapiau perygl llifogydd, y gofynion i ymgynghori ag CNC a sut y dylid eu hystyried o dan y polisi TAN 15 diweddaraf.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno diweddariadau i fapiau perygl llifogydd a gofynion ymgynghori a fyddai'n gwneud y canlynol:**

- **Cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r Map Cyngor Datblygu presennol.**
- **Cyflwyno Gorchymyn diwygio i sicrhau yr ymgynghorir ag CNC ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' sydd wedi'u lleoli yn y parthau perygl llifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.**

**Disgrifiad**

6.29 Byddai'r opsiwn hwn yn cael gwared ar y Map Cyngor Datblygu presennol a'i barthau llifogydd ac yn cyflwyno Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio a pharthau llifogydd newydd a fyddai'n pennu ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. Byddai'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol ar berygl llifogydd a geir yn y fersiwn newydd o TAN 15. Byddai'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn sicrhau bod arddull a chynnwys y mapiau'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol ar berygl llifogydd ac yn adlewyrchu diweddariadau iddo. Er enghraifft, byddai'n nodi'n glir bod ardaloedd a

gaiff eu hamddiffyn rhag perygl llifogydd ar hyn o bryd yn ‘Ardaloedd Amddiffynnol TAN 15’, sy'n gyson â pholisi TAN 15.

6.30 Yn sgil diwygiadau i'r mapiau llifogydd, byddai angen Gorchymyn diwygio er mwyn diweddaru gofynion i ymgynghori ag CNC ar gynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd.

6.31 Byddai'r Gorchymyn diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori ag CNC ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer ‘datblygiadau mawr’ sydd wedi'u lleoli yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, yn hytrach na'r Map Cyngor Datblygu. Y parthau risg uchaf sydd i'w nodi yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yw Parth 2, Parth 3 a Pharthau Amddiffyn TAN 15. Mae'r rhain yn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ond ceir ynddynt amddiffynfeydd rhag llifogydd o safon uchel.

6.32 Penderfynwyd na ddylai Gorchymyn diwygio nodi ‘mathau’ penodol o ddatblygiadau y dylid ymgynghori yn eu cylch yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf, megis ‘datblygiad dan fygythiad mawr’ neu ‘ddatblygiad gwasanaethau brys’. Mae'n amlwg bod ACLlau a datblygwyr, ar y cyfan, yn hysbysu CNC am unrhyw fath o gynnig datblygu y cynigir ei leoli mewn ardal lle ceir perygl llifogydd, nid dim ond y rhai sydd wedi'u rhagnodi'n benodol o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

**Costau**

<u>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</u>

6.33 Nid ystyrir y byddai'r opsiwn hwn yn creu unrhyw gostau ychwanegol i CNC, gan y byddai'r adnoddau a ddefnyddir gan CNC i ddarparu ymatebion o sylwedd i geisiadau cynllunio yn debyg i Opsiwn 1.

6.34 Byddai'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn sicrhau yr ymgynghorir ag CNC ar ddatblygiadau yn unol â'r parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd a nodir yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, sy'n adlewyrchu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd. Diben cyflwyno Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn lle'r Map Cyngor Datblygu yw sicrhau bod y mapiau'n defnyddio'r derminoleg ddiweddaraf ym maes cynllunio a pherygl llifogydd yn unol â'r diweddariadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol ar berygl llifogydd a nodir yn y fersiwn newydd o TAN 15. Noder: mae CNC eisoes wedi datblygu'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio newydd. Felly, mae'r costau o ddatblygu adnodd newydd i fapio perygl llifogydd at ddibenion cynllunio, i ddisodli'r Map Cyngor Datblygu, wedi mynd iddynt eisoes ac yn ‘gostau suddedig’.

6.35 Pe bai'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei chadw a'r Map Cyngor Datblygu presennol yn parhau, byddai CNC yn parhau i ddiweddaru'r Map hwnnw'n rheolaidd, h.y. bob chwe mis, i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r

data diweddaraf ar berygl llifogydd[14]. Trwy ddilyn y naill lwybr mapio neu'r llall, byddai'r parthau sy'n dangos y lefelau uchaf o berygl llifogydd at ddibenion cynllunio yn debyg dros y tymor hwy; felly, ni ddylai nifer y ceisiadau y mae'n ofynnol i CNC ddarparu ymatebion sylweddol iddynt o un flwyddyn i'r llall newid rhwng Opsiynau 1 a 2.

| Parthau Llifogydd y Map Cyngor Datblygu presennol, sy'n sbarduno gofynion datblygu i ymgynghori ag CNC. | Tir (arwynebedd) km² | Parthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Arfaethedig. | Tir (arwynebedd) km² |
|---|---|---|---|
| C1 (yn cynnwys amddiffynfeydd presennol) | 234 | Parthau Amddiffynnol | 273 |
| C2 | 1814 | Parth 2 | 168 |
| | | Parth 3 | 1902 |
| **Cyfanswm arwynebedd y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd gan ddefnyddio'r Map Cyngor Datblygu presennol.** | **2048** | **Cyfanswm arwynebedd y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd gan ddefnyddio'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.** | **2343** |

Tabl 5: Gwahaniaethau mewn arwynebedd tir rhwng y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Cyngor Datblygu presennol a'r parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.

6.36 Mae CNC wedi darparu data sy'n dangos yr effaith ofodol a gaiff cyflwyno'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ar yr adeg hon[15]. Mae'r data yn tynnu sylw at y gwahaniaethau mewn arwynebedd tir rhwng y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn y Map Cyngor Datblygu, lle mae'n ofynnol ymgynghori â CNC ar ddatblygiadau ar hyn o bryd, a Pharthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (gweler Tabl 5 uchod). Mae'n dangos pe bai Parthau Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn disodli Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu, y byddai'n

14 Dylid nodi nad yw'r Map Cyngor Datblygu presennol yn ystyried newid hinsawdd wrth gynllunio ar gyfer ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, ond byddai'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn ystyried newid hinsawdd wrth ddiffinio ardaloedd lle ceir perygl llifogydd. Fodd bynnag, pe bai'r Map Cyngor Datblygu yn cael ei ddiweddaru yn y dyfodol, ystyrir y byddai'n cynnwys y data hyn, am fod y pwnc yn eithriadol bwysig yng nghyd-destun llifogydd ac am fod gan CNC y gallu bellach i'w gynnwys yn y mapiau perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. Felly, nid ystyrir bod y newid hwn i gynnwys newid hinsawdd yn y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn wahanol i'r sefyllfa pe bai'r Map Cyngor Datblygu presennol yn cael ei ddiweddaru at ddibenion cynllunio yn y dyfodol.

15. Darparwyd y data hyn gan CNC i Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror 2025.

arwain at gynnydd o 14%[16] yn arwynebedd tir y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd. Cynnydd bach yw hwn yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, a allai arwain at nifer bach o gynigion newydd y mae'n rhaid i CNC ddarparu ymateb o sylwedd iddynt. Byddai'r trefniadau i ddiweddaru'r mapiau llifogydd hefyd yn debyg i drefniadau o dan Opsiwn 1, o gofio y byddai'r Map Cyngor Datblygu a'i ardaloedd perygl llifogydd yn cael eu diweddaru bob 6 mis.

| Blwyddyn | 2023/ 2024 | 2022/ 2023 | 2021/ 2022 | 2020/ 2021 | 2019/ 2020 | 2018/ 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion sylweddol a roddwyd gan CNC i bawb y'i darparwyd iddynt ar gyfer datblygiadau ym mharthau'r Map Cyngor Datblygu lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, lle nad yw'n ofynnol ymgynghori ar y math hwnnw o ddatblygiad o dan y gofynion deddfwriaethol presennol. | 369 | 376 | 293 | 332 | 326 | 362 |

Tabl 6: Data sy'n dangos lle mae CNC wedi rhoi ymatebion sylweddol i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ym mharthau'r Map Cyngor Datblygu lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, lle nad yw'n ofynnol ymgynghori ar y math hwnnw o ddatblygiad[17] o dan y gofynion deddfwriaethol presennol.

6.37 Nid ystyrir bod dileu unrhyw gyfeiriadau at ‘fathau’ o ddatblygiadau o dan yr opsiwn hwn er mwyn sicrhau bod CNC yn cael ei hysbysu am bob math o ddatblygiad yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd yn creu costau ychwanegol i CNC, gan mai dyma'r arfer ar hyn o bryd (gweler Tabl 6 uchod). Dros y chwe mlynedd diwethaf, mae'r data yn dangos bod CNC wedi rhoi ymatebion sylweddol i ryw 343[18] o ymgyngoriadau'r flwyddyn nad oes yn rhaid ymgynghori arnynt o dan y gofynion deddfwriaethol presennol.

Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant Datblygu

6.38 Nid ystyrir y byddai unrhyw gostau ychwanegol uniongyrchol i randdeiliaid sy'n gofyn i CNC am ymatebion ymgynghori o dan yr opsiwn hwn. Byddai'r adnoddau sydd eu hangen i ymgynghori ag CNC yn debyg, o ystyried y mathau o gynigion cynllunio y byddai'n rhaid ymgynghori arnynt gan ddefnyddio'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio a'i barthau

16 (Ardaloedd Perygl Llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio Arfaethedig (2343) llai Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu presennol (2048)) / Parthau Perygl Llifogydd y Map Cyngor Datblygu presennol (2048) * 100.

17 Mae'r math hwn o ddatblygiad yn dangos yr ymatebion sylweddol a roddwyd i ymgyngoriadau nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad presennol o ddatblygiad ‘gwasanaethau brys’ a datblygiad ‘dan fygythiad mawr’ ar gyfer Parth C1 y Map Cyngor Datblygu. Data a ddarparwyd gan CNC ar 28 Chwefror 2025.

18 Swm y data ar gyfer 2018/2019 i 2023/2024 wedi'i rannu â 6.

llifogydd o gymharu ag Opsiwn 1. Y rheswm am hyn yw, o dan y ddwy senario, y byddai'r ddau fap llifogydd yn cael eu diweddaru bob chwe mis i sicrhau eu bod yn darparu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd. Byddai hyn yn golygu nad yr opsiynau sydd ar gael yn yr asesiad hwn fyddai achos uniongyrchol y diffiniad o'r ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd sy'n sbarduno gofynion i ymgynghori â CNC.

6.39 Byddai'r newidiadau deddfwriaethol o dan yr opsiwn hwn yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymgynghori â CNC ar bob math o ddatblygiad a gynigir yn y parthau lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, yn hytrach na nodi 'mathau' o ddatblygiadau fel sy'n digwydd o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Ystyrir bod hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd.

**Manteision**

<u>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</u>

6.40 Byddai CNC yn ymgynghori ar geisiadau cynllunio a chynigion cyn ymgeisio ar gyfer 'datblygiadau mawr' mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fel y'u diffinnir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Byddai'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn darparu'r data diweddaraf ar berygl llifogydd at ddibenion cynllunio, ond ystyrir y byddai'r un peth yn wir hefyd pe bai'r Map Cyngor Datblygu yn cael ei gadw (Opsiwn 1) a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

6.41 Serch hynny, byddai'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod mapiau perygl llifogydd a gofynion ymgynghori yn nodi'n glir bod yn rhaid i ymgeiswyr a llunwyr penderfyniadau hysbysu CNC am bob cynnig datblygu yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd. Dyma'r arfer safonol ar hyn o bryd ond o dan yr opsiwn hwn, caiff ei gynnwys mewn deddfwriaeth (drwy ddileu 'mathau' o ddatblygiadau o'r ddeddfwriaeth bresennol).

6.42 Byddai'r newidiadau hefyd yn sicrhau bod y mapiau perygl llifogydd at ddibenion cynllunio a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig sy'n nodi gofynion i ymgynghori ag CNC yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a geir yn TAN 15. Yn y pen draw, ni fyddai amwysedd rhwng polisi, deddfwriaeth a mapiau llifogydd, felly byddai'n rhoi sicrwydd i CNC yr ymgynghorir ag ef yn briodol ar gynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd a gall lunio ymatebion sy'n cyd-fynd yn llawn â'r polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar berygl llifogydd.

<u>Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau), Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant Datblygu</u>

6.43 Ystyrir na fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn arwain at unrhyw fuddiannau amlwg i ACLlau, PEDW na'r diwydiant datblygu dros y tymor hwy. Byddai pob rhanddeiliad yn parhau i ymgynghori ag CNC ar gynigion cynllunio yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd, p'un a ydynt wedi'u

hamlinellu yn y Map Cyngor Datblygu presennol neu'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio.

6.44 Serch hynny, mae buddiannau i'r opsiwn hwn yn nhermau cysoni'r mapiau perygl llifogydd at ddibenion cynllunio a gofynion ymgynghori â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a geir yn y fersiwn newydd o TAN 15. Dylai'r cynigion hyn arwain at set gynhwysfawr o fapiau perygl llifogydd, gofynion deddfwriaethol a gofynion polisi cynllunio cenedlaethol gan sicrhau bod gan bob rhanddeiliad ddealltwriaeth gliriach o'r modd y dylid ystyried y perygl o lifogydd wrth benderfynu ar gynigion datblygu drwy'r system gynllunio.

**Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir**

6.45 Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir.

6.46 Ystyrir nad yw'r naill opsiwn na'r llall yn creu costau sylweddol nac yn arwain at fuddiannau ariannol sylweddol i'r rhanddeiliaid i gyd. O dan Opsiwn 1, byddai'r Map Cyngor Datblygu presennol yn parhau i gael ei ddiweddaru er mwyn dangos y data mwyaf cywir a fyddai'n dangos ardaloedd lle ceir perygl llifogydd at ddibenion cynllunio. Fodd bynnag, bydd Opsiwn 2 hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ardaloedd lle ceir perygl llifogydd gyda Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio ond, yn hollbwysig, bydd terminoleg y ddeddfwriaeth yn gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf ar berygl llifogydd a geir yn y fersiwn newydd o TAN 15.

6.47 Drwy weithredu Opsiwn 2, bydd modd sicrhau bod y broses o ystyried cynigion datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn gyson ac yn glir i bob rhanddeiliad, yn nhermau'r mapiau a ddefnyddir, y gofynion i ymgynghori ag CNC a'r modd y caiff y polisi cynllunio diweddaraf ei gymhwyso.

6.48 Nid oes Asesiad Effaith Integredig nac Asesiad o Gystadleuaeth wedi cael eu paratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig gan nad yw'r newidiadau arfaethedig yn golygu newid sylweddol. Yn hytrach, ystyrir eu bod yn ymarfer i gysoni'r gofynion deddfwriaethol i ymgynghori ag CNC â'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, yn hytrach na'r Map Cyngor Datblygu a gaiff ei ddisodli, a'r derminoleg a geir yn y fersiwn newydd o TAN 15. Caiff y safbwynt hwn ei egluro o dan y ddau opsiwn a amlinellir.

## 7. Asesu'r Gystadleuaeth

7.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gymhwyso at y diwygiadau arfaethedig. Ni ddisgwylir i'r cynigion gael unrhyw effaith ar lefel y gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

## 8. Adolygiad ar ôl gweithredu

8.1 Mae'r adroddiadau monitro blynyddol a gyflwynir gan Awdurdodau Tân ac Achub i Lywodraeth Cymru o dan Opsiwn 2 yn cynnig ffordd o fonitro perfformiad yr Awdurdodau wrth ymateb i geisiadau ymgynghori. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd a chânt eu hasesu gan Lywodraeth Cymru.

8.2 Gall perfformiad ACLlau wrth ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub gael ei gynnwys yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gwasanaethau Cynllunio a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru a chael ei drafod gan Lywodraeth Cymru ac ACLlau yng nghyfarfodydd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.

8.3 Mae CNC yn cyflwyno adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru fel ffordd o fonitro perfformiad y corff wrth ymateb i ymgyngoriadau. Caiff yr adroddiadau hyn eu hasesu gan Lywodraeth Cymru a'u cyhoeddi.

8.4 Mae perfformiad ACLlau Lleol wrth roi caniatâd cynllunio i ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gwasanaethau Cynllunio a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru. Gall hefyd fod yn bwnc trafod rhwng Llywodraeth Cymru ac ACLlau yng nghyfarfodydd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.

8.5 Caiff Cyfarwyddyd Hysbysu newydd ei gyflwyno ar y cyd â'r fersiwn newydd o TAN 15, a fydd yn cyfyngu ar y posibilrwydd y gall penderfyniadau gael eu gwneud yn groes i bolisi cenedlaethol ar gyfer datblygiadau dan fygythiad mawr yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd. Mae hyn yn cynnig ffordd o fonitro natur cynlluniau yr ymgynghorir ag CNC yn eu cylch.